

## **Adroddiad Adolygiad Arfer Plant**

### **Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg Adolygiad Arfer Plant Estynedig**

**Parthed: BDPRhCF 09/2014**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

#### **Disgrifiad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad**

#### **Cyd-destun cyfreithiol o Ganllaw Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad;**

Comisiynwyd adolygiad arfer plant estynedig gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) Caerdydd a'r Fro yn unol ag Amddiffyn Plant yng Nghymru - Adolygiadau ymarfer plant: canllaw i drefnu a hwyluso digwyddiadau dysgu (Llywodraeth Cymru 2013). Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn wedi eu hateb dan adran 6.1 y Canllaw uchod.

**6.1** Rhaid i Fwrdd gwblhau adolygiad arfer plant estynedig yn unrhyw un o'r achosion canlynol lle, o fewn ardal y Bwrdd, bod cam-drin neu esgeuluso ar blentyn yn wybyddus neu dan amheuaeth a bod y plentyn -

- Wedi Marw; neu
- Wedi dioddef anaf a all fygwth bywyd; neu
- Wedi dioddef niwed difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad.

**a**

Bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/ neu oedd yn blentyn oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys plentyn yn gadael gofal dan 18 oed) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cyn -

- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- Y dyddiad pan fu i'r awdurdod lleol neu bartner perthnasol nodi fod y plentyn wedi dioddef amhariad estynedig a difrifol ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Diben adolygiad arfer plant yw nodi'r gwersi ar gyfer arfer y dyfodol, ac mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion yn archwilio'r manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Bwriad canlyniad adolygiad yw creu gwersi proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant ar arfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd ac nid bwrw bai (Amddiffyn Plant yng Nghymru Adolygiadau ymarfer plant: canllaw i drefnu a hwyluso digwyddiadau dysgu (Llywodraeth Cymru 2013).

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau estynedig wedi eu gosod gan Reoliadau

Byrddau Diogelu Plant Lleol (Cymru) 2006 fel y'i diwygiwyd 2012.

### **Gwybodaeth gefndirol**

Comisiynwyd yr Adolygiad Arfer Plant Estynedig (AAPE) yn dilyn argymhelliad gan Is-grŵp Adolygiad Arfer Plant Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro ar 6 Ionawr 2015. Mae'n ystyried amgylchiadau plentyn ifanc sydd bellach yn destun Gorchymyn Gofal i'r Awdurdod Lleol.

Mae llinell amser yr adolygiad arfer plant estynedig hwn yn edrych ar amgylchiadau o 1 Gorffennaf 2012 hyd 1 Gorffennaf 2014 (Atodiad 1 Cylch Gorchwyl).

Yn ystod cyfnod y llinell amser bu'r plentyn yn byw gyda'i mam (a'i brawd hŷn). Ers cyrraedd 3 oed a 7 mis gwnaed y plentyn yn destun Gorchymyn Gofal; erbyn 6 oed 10 mis roedd y plentyn wedi arddangos ymddygiad pryderus o fewn lleoliad meithrin y plentyn ac yn ddiweddarach ysgol y plentyn, gan gynnwys baeddu, ymddygiad rhywiol a bygythiol at blant eraill. Gwnaed archwiliadau meddygol ar dri achlysur ac er na ellid diystyru cam-drin corfforol na rhywiol ni lwyddodd y canfyddiadau i brofi heb amheuaeth (nac yn ffensiwn) y pryderon a fynegwyd gan weithwyr iechyd ac addysg proffesiynol.

Ystyriwyd fod gan fam y plentyn ysbryd isel ac iselder a diffygion o ran sgiliau rhianta. Daeth yn amlwg wedyn ei bod yn gweithio fel 'escort' o'i chartref. Gadawodd y plentyn yng ngofal cyfaill gwrywaidd hŷn a dynion eraill oedd a gofalon dros nos, gan gynnwys golchi a chasglu a mynd a hi'n ôl a blaen i'r feithrinfa ac yna'r ysgol.

### **Digwyddiadau Arwyddocaol yn Ystod y Cyfnod Dan Adolygiad**

O ddechrau 2012 yn y lle cyntaf fe wnaeth Gwasanaethau Plant (GP) gefnogi'r fam ar sail 'plentyn mewn angen' yn dilyn nifer o bryderon a gyfathrebwyd gan y feithrinfa. Dechreuodd gweithwyr iechyd proffesiynol fynegi pryderon sylweddol o ran ymddangosiad y plentyn gan ystyried ei fod yn awgrymu cam-drin rhywiol ar ben y categorïau eraill. Rhoddwyd llety gwirfoddol i'r plentyn dan adran 20 Deddf Plant 1989 ym mis Awst y flwyddyn honno. Yn dilyn hynny cafodd fynd yn ôl at ei mam ym mis Chwefror 2013. Roedd pecyn cymorth ar gael i'r fam ac fe gafodd y plentyn gymorth dwys o fewn y lleoliad addysgol.

Trwy gydol gweddill 2013 mae'r asiantaethau allweddol (Iechyd, Gwasanaethau Plant ac Addysg) yn cofnodi pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol a bygythiol y plentyn, ei datblygiad corfforol ac emosiynol, iechyd a llesiant a gallu'r fam i amddiffyn a meithrin y plentyn. Arhosodd y plentyn fel 'plentyn mewn angen' tan i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant cyntaf gael ei chynnal ar 3 Rhagfyr 2013. Yn y gynhadledd hon cofrestrwyd y plentyn dan gategori niwed emosiynol.

Ar ddiwedd 2013 a hyd at fis Gorffennaf 2014, parhaodd a chynyddodd ymddygiad rhywiol a bygythiol y plentyn. Roedd yn baeddu ac yn dioddef o ddoluriau i'w horganau rhywiol a heintiau ar y llwybr wrinol. Roedd y plentyn wedi sôn wrth weithwyr proffesiynol am gael ei tharo gan gariad ei mam a'i chynbartner (Medi 2013 yn yr ysgol) gan ddisgrifio'r hyn y gellid ie alw'n gam-drin rhywiol diamwys (Tachwedd 2013 i Therapydd Chwarae a Phennaeth ysgol ar wahân a mis yn ddiweddarach fe ailadroddodd yr un datgeliad i staff yr ysgol, Gorffennaf 2014 i'r gofalwr maeth, dan

ofal yr Awdurdod Lleol). Mae'n disgrifio cariadon y fam fel 'dynion dychrynlyd' sy'n dod i'w hystafell wely (Rhagfyr 2013), daeth i'r amlwg bod ei mam yn gweithio fel 'escort' o'r cartref. Roedd mam y plentyn yn tadogi ymddygiad ei merch ar broblemau iechyd meddwl a etifeddwyd gan ei rhieni. O ganlyniad comisiynwyd nifer o asesiadau er mwyn diystyru unrhyw ddiagnosis meddygol. Nodwyd gan iechyd yn 2013 nad oedd y fam yn llwyddo i ateb anghenion iechyd y plentyn e.e. Optegydd a Deintydd.

Ym mis Gorffennaf 2014 gwnaeth GP gais llwyddiannus i'r Llys am Orchymyn Gofal Dros Dro dan ddeddf Plant 1989 a gosodwyd y plentyn dan ofal maeth yn 6 oed a 10 mis. Yn dilyn hynny arestiwyd mam y plentyn a'i ffrind/cariad a'u holi fodd bynnag cynghorodd Gwasanaeth Erllyn y Goron na ellid cymryd unrhyw gamau pellach yn erbyn y naill barti na'r llall.

## **Arfer a dysgu sefydliadol**

### **Llais y plentyn**

Mae arfer da yn dweud wrthym fod plant yn debygol o ddatgelu camdriniaeth pan fyddant yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol ar eu pennau eu hunain, i ffwrdd o'r rhieni a gofalwyr mewn amgylchedd lle byddant yn teimlo'n ddiogel. Yn yr achos hwn, gwnaeth y plentyn, rhwng ei bod yn 3 oed a 6 mis ar ddechrau'r adolygiad hyd 6 oed a 10 mis ar ddiwedd llinell amser yr adolygiad, nifer o ddatgeliadau, er nad wastad yn ddatgeliad llafar. Roedd y rhain yn cynnwys ymddygiad rhywiol fel y trafodwyd yn y Drafodaeth Strategaeth ar 4 Tachwedd 2013, oedd yn ymwneud â phlentyn arall yn ei dosbarth o ran ymddygiad rhywiol.

Roedd y plentyn yn arddangos ymddygiad rhywiol dwysach a phryderus tu hwnt ac ymddygiad mwy bygythiol at ei chyfoedion. Ni wnaeth yr ymddygiad hwn, er iddo gael ei gofnodi a'i rannu ymhlith gweithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â'r plentyn, beri pryder digonol yn y cyfnod cychwynnol oedd yn ddigon i arwain at Gynhadledd Amddiffyn plant cychwynnol. Pan ysgogwyd y broses hon ar 3 Rhagfyr 2013 nid oedd y categori Cam-drin Emosiynol yn adlewyrchu'n ddigonol lefel uchel y pryderon parthed cam-drin rhywiol a fynegwyd gan yr ymarferwyr yn ystod y cyfnod adolygu. Dylid nodi nad oedd asiantaethau/gweithwyr proffesiynol allweddol wedi eu cynrychioli yn y gynhadledd Amddiffyn Plant cychwynnol h.y. y Paediatregydd arweiniol a'r Heddlu a anfonodd eu hymddiheuriadau.

Diben gosod enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yw dwyn sylw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn o'r perygl o niwed sylweddol.

“Dylai'r categorïau adlewyrchu'r holl wybodaeth a gafodd ei gywain yng nghwrs ymholiadau amddiffyn plant adran 47 a dadansoddiad dilynol ac ni ddylai ymwneud ag un neu ddau ddigwyddiad o gam-drin yn unig.” (Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008). Roedd y plentyn yn arddangos arwyddion camdriniaeth rywiol nad ydyw wedi ei adlewyrchu'n ddigonol yn y categori cofrestru.

Rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn effro i rieni sy'n tynnu'r ffocws oddi ar y plentyn drwy awgrymu efallai bod gan y plentyn broblem feddygol neu anhawster ymddygiadol a fyddai'n egluro ymddygiad y plentyn. Yn ystod cyfnod cynnar yr adolygiad cafwyd asesiadau meddygol i benderfynu os gellid tadogi'r ymddygiad ar ADHD, cafodd ymweliadau dilynol â Meddyg Teulu yn dioddef o ddolur ar yr oganau rhywiol a baeddu

eu hymchwilio fel haint ar y llwybr wrinol. Mae'r ymchwiliadau er mwyn diystyru'r diagnosis meddygol yn bwysig fodd bynnag, pan fo crynhoad o bryderon yn codi dros nifer o fisoedd lle bod hanes o nifer o bartneriaid gan y fam, pan fo plentyn yn dyst i gam-drin domestig ac yn datgelu cam-drin corfforol, dylai hyn wneud gweithwyr proffesiynol yn effro i natur bryderus yr amgylchedd y mae'r plentyn yn cael ei fagu ynddo.

Barn yr adolygwyr yw i'r fam ddefnyddio'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel cydymffurfiaeth dan gël drwy fynychu nifer o raglenni rhianta ac ymddangos fel pe tai hi'n ymgysylltu â gwasanaethau, fodd bynnag nid oedd hyn yn gwella ei pherthynas â'r plentyn na'i gallu i reoli a gofalu am ei phlentyn. Cadarnhaodd y fam nad oedd yn cydnabod y gallai ei phlentyn fod mewn peryg yn sgil nifer uchel y partneriaid a ffrindiau gwrywaidd yn ei bywyd. Roedd ffocws y gweithwyr proffesiynol yn lle hynny ar ysbryd isel ac iselder y fam, ei hamgylchiadau ariannol ac anawsterau dysgu posibl.

Roedd ymdrechion y gweithwyr proffesiynol yn canolbwyntio ar gadw'r plentyn adref gyda'r fam a lleihau'r perygl drwy sicrhau bod y fam yn ymgysylltu â gwasanaethau a chynnal ei hiechyd a'i llesiant ei hun. Tra bod y fam wedi mynychu cyrsiau rhianta ychydig o newid a gofnodwyd yn ei hymddygiad a'i hymwybyddiaeth o'r rhesymau dros bryderon y gweithwyr proffesiynol ac fe barhaodd ymddygiad pryderus y plentyn. Gan na welwyd gwelliant neu ond ychydig rhwng dechrau 2012 a Gorffennaf 2014 (ac eithrio ei chyfnod dan ofal gwirfoddol) mae'r adolygwyr yn ei chael yn anodd dirnad y penderfyniadau a adawodd y plentyn yng ngofal y fam gyhyd ag y gwnaed.

Rhaid i weithwyr proffesiynol wrando ar yr hyn y mae plant yn ei ddweud a gwneud synnwyr o ymddygiad sy'n cael ei arddangos yn gyson er mwyn eu diogelu nhw. Ymddengys yn absenoldeb datgeliad llafar gan y plentyn, nad oedd GP yn teimlo fod digon o dystiolaeth i dynnu'r plentyn o ofal y fam er mwyn diogelu'r plentyn yn ddigonol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd am gyngor cyfreithiol ym mis Mai 2014 rhoddwyd cyngor i ddechrau ar Achosion Gofal. Er bod disgrifiadau'r plentyn o ddigwyddiadau yn yr achos hwn yn ddiamwys a thu hwnt i ganfyddiad arferol plentyn o'r oed yma, nid oedd ei datgeliadau yn dweud pwy wnaeth beth, pryd ac ymhle. Roedd hi'n 3 oed pan ddenodd ei hymddygiad sylw a phryder o du gweithwyr proffesiynol. Mae'n annhebygol y gallai plentyn rhwng 3 - 6 oed ffurfio'r iaith angenrheidiol i gyrraedd "datgeliad llawn" o'r math yma, fodd bynnag ar dri achlysur o leiaf mae'n disgrifio cysylltiad rhywiol treiddiol.

### **Cwrdd â'r fam**

Cyfarfu'r ddau adolygydd â'r fam cyn y digwyddiad dysgu i ystyried ei phrofiad hi o ymwneud y gwasanaethau a'r hyn a arweiniodd at y gynhadledd amddiffyn plant, y Gorchymyn Gofal Dros Dro ac yna tynnu'r plentyn wedi hynny o'i gofal. Yn ystod y cyfarfod oedd wedi ei drefnu roedd brawd/chwaer 10 oed y plentyn yno hefyd.

O ailystyried mae'r fam yn cydnabod iddi wneud camgymeriadau ac mae'n edifar ganddi am yr hyn a wnaeth. Mae'n nodi ei bod yn ymddiried yn ei phartner/frind ar yr adeg, ef oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gofal am ei bod hi'n gweithio, ac roedd hefyd yn ei helpu'n ariannol. Ar ben hynny ar un achlysur fe dalodd am lawdriniaeth gosmetig breifat. Mae'r sefyllfa yn ei thristau ac mae'n dymuno na fyddai erioed wedi digwydd.

Mae'r fam yn teimlo ei bod yn cael ei beio am bopeth gan y gweithwyr proffesiynol.

Doedd hi ddim yn teimlo bod y gweithwyr proffesiynol yn dda am wrando arni fodd bynnag mae'n deall pam y cymerwyd y plentyn o'i gofal a'r camau a gymerwyd i atal niwed pellach. Siaradodd y fam yn bennaf am ei pherthynas â GP ond gan gydnabod hefyd bod asiantaethau eraill hefyd yn rhan o'r cyfathrebu â GP ac yn rhan o'r penderfynu. Nid yw'r fam yn teimlo bod y cyfathrebu ag asiantaethau eraill ar y cyfan wedi bod yn dda, roedd hi'n teimlo ei bod yn cael ei beirniadu a gormod o ofn arni i fod yn agored ac onest, ac roedd GP yn enwedig yn peri dychryn iddi. I gloi fe nododd y fam y dymunai hi gael mwy o gysylltiad â'r plentyn ar ei rhan ei hun ac ar ran aelodau eraill y teulu. Mae'n pryderu y bydd ei pherthynas â'r plentyn yn cael ei gyfaddawdu.

### **Digwyddiad Dysgu**

Gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos ac yn cwmpasu'r holl asiantaethau i Ddigwyddiad Dysgu. Roedd y rhai a fynychodd yn cynnwys:

- 4 Swyddog Heddlu
- 2 Reolwr Gweithredol Gwasanaethau Plant
- 1 Swyddog Adolygu Annibynnol
- 2 Gwasanaeth Cymorth Dwys Teuluol
- 2 Baediatregydd
- 1 Addysg
- 1 Meddyg Teulu

Staff o Uned Fusnes y BRhDP fu'n hwyluso'r digwyddiad dysgu a gyflwynwyd gan yr Adolygwyr. Yn ystod y Digwyddiad Dysgu daeth yn amlwg nad oedd dogfennau a rannwyd gan weithwyr proffesiynol gyda GP wedi eu dogfennu fel atgyfeiriad, hyd yn oed bod y gweithwyr proffesiynol yn tybio mai dyma oedd yr achos. Arweiniodd hyn at drafodaethau adeiladol yn y gweithdy rhwng asiantaethau a sut y gellid datrys hyn.

Y materion a drafodwyd oedd:

- Hyfforddiant aml-asiantaeth,
- trosolwg rheolwyr,
- pwysigrwydd Gwasanaethau Plant yn casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael i sicrhau dealltwriaeth lawn a holistaidd o'r plentyn a'i fywyd.
- dogfennaeth broffesiynol,
- hyder gweithwyr proffesiynol i herio penderfyniadau a thynnu sylw at bryderon proffesiynol.

Cydnabu gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad, yn dilyn trafodaeth yn y gweithdy ac adborth gan adolygwyr, y byddent yn hyderus i weithredu fel eiriolwr i'r plentyn, adnabod arwyddion cam-drin yn enwedig cam-drin rhywiol, herio penderfyniadau ac ystyried argymhellion a wnaed yn y gynhadledd amddiffyn plant i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn. Roedd y digwyddiad dysgu yn cynnig fforwm i weithwyr proffesiynol ystyried anawsterau a brofwyd ganddynt gyda'r achos a mynd i'r afael â rhywfaint o'r rhwystredigaethau.

### **Rhannu Gwybodaeth Rhwng Asiantaethau**

Cydnabyddir bod Arferion Effeithiol o ran diogelu wedi eu hadeiladu ar rannu

gwybodaeth yn amserol ac effeithiol rhwng asiantaethau. Tynnodd yr adolygiad sylw at enghreifftiau da o rannu gwybodaeth, er enghraifft fe wnaeth yr ysgol yn enwedig rannu gwybodaeth ynghylch ymddygiad y plentyn, ei lesiant a'r ddeinameg deuluol. Cyfathrebodd lechyd eu pryderon am lesiant y plentyn a gallu rhianta'r fam. Er gwaethaf galwadau ffôn aml a llythyrau rhwng y ddwy asiantaeth yma a GP (Tîm Pwynt Mynediad Plant) ni weithredwyd ar y wybodaeth hon bob tro yn y modd a ddisgwyliid gan y sawl oedd yn atgyfeirio, gan adael yr ysgol i reoli ymddygiad anodd y plentyn gan arwain at rwystredigaeth ar ran gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol am y diffyg ymyrraeth i ddiogelu'r plentyn.

I grynhoi roedd peth dryswch o fewn yr asiantaethau ynghylch yr hyn a oedd yn "atgyfeiriad" pan oedd pryderon yn cael eu mynegi am y plentyn. Roedd peth rhwystredigaeth hefyd nad oedd unrhyw eglurhad nac adborth gan GP ynghylch pa gamau oedd ar waith, neu ar y gweill yn dilyn galwadau ffôn a llythyrau yn ymwneud a llesiant y plentyn. Dylid nodi fod yr AWCPP (2008) yn nodi y dylai rhai sy'n atgyfeirio ofyn am adborth pan nad yw hwn wedi ei roi o fewn 10 diwrnod gwaith.

### **Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol**

Cafodd rheolaeth yr achos ei herio ar sawl achlysur gan y Paediatregydd arweiniol. Anfonwyd dau lythyr yn mynegi pryder am gam-drin rhywiol, corfforol ac emosiynol tebygol ar y plentyn, ac yn gofyn am asesiad aml-asiantaeth, at y GP. Nid yw'r llythyron hyn wedi eu cofnodi ar gofnodion achos GP. Gwnaeth yr ysgol nifer o alwadau ffôn i GP oedd yn ymddangos iddynt arwain at ddim gweithredu o gwbl. Yn y digwyddiad dysgu hwn tanlinellodd yr asiantaethau eu rhwystredigaeth am y diffyg adborth a'r camau gweithredu i ddiogelu'r plentyn fodd bynnag ni wnaeth y naill asiantaeth na'r llall bwysu ar y canllaw "Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol" i herio'r modd yr oedd yr achos yn cael ei reoli.

Dylai ymarferwyr a rheolwyr ym mhob asiantaeth sicrhau eu bod yn deall hyn a defnyddio'r arweiniad hwn.

### **Asesu a dadansoddi**

AWCPP 2008: arfer da wrth asesu: "Mae adolygiadau achos difrifol (y cyfeirir atynt ers 2013 fel Adolygiad Arfer Plant) yn aml yn tanlinellu pwysigrwydd asesu a dadansoddi. Asesu yw'r broses pan fo gwybodaeth yn cael ei gasglu, ei goladu a'i ddadansoddi. Mae asesu effeithiol yn ceisio patrymau cyffredinol i egluro'r hyn sydd wedi digwydd i blentyn ac yn cynnig fframwaith i ddeall a dadansoddi angen, perygl a'r perygl mae unigolion yn ei fygwth i blant. Mae angen gofal neilltuol nad yw asesiadau yn troi'n or-optimistaidd neu'n lleihau'r risg i'r plentyn. Mae angen i'r ffocws fod ar gasglu tystiolaeth i ffurfio barn ar a yw plentyn yn ddiogel rhag anaf, esgeulustod a cham-drin emosiynol neu rywiol.

Tanlinellodd yr adolygiad fod oedi wedi bod wrth gofnodi, coladu a dadansoddi'r pryderon a gyfathrebwyd i GP. Er bod swm sylweddol o wybodaeth wedi ei roi gan ystod o asiantaethau nid ymddengys fod gwybodaeth wedi ei defnyddio i ddatblygu patrwm cyffredinol a allai fod wedi egluro'r hyn oedd yn digwydd i'r plentyn. Mae tystiolaeth mewn cofnodion a nodiadau cyfarfodydd fod gorddibyniaeth, (gan GP cyn y gynhadledd amddiffyn plant (AP) cyntaf ac yna'n ddiweddarach gan yr holl asiantaethau a fynychodd y cynadleddau AP), ar ddiagnosis tystiolaeth feddygol yn hytrach na defnyddio barn broffesiynol am achosion tebygol ymddygiad ac ymddangosiad y plentyn, o ystyried cyd-destun bywyd y plentyn.

Dros y cyfnod adolygu dwy flynedd o hyd roedd pum gweithiwr cymdeithasol (GC) wedi eu neilltuo a dwy enghraifft wedi eu cofnodi o oruchwyliaeth gan reolwyr. Bu cyfanswm o saith meddyg Teulu ynghlwm ynghyd â dau weithiwr cymorth i deuluoedd. Mae'n bosib y rhwystrodd newidiadau staffio yn GP ymagwedd holistig gyda phob gweithiwr cymdeithasol newydd, yn hytrach na defnyddio'r cyfoeth gwybodaeth a gyfathrebwyd i ac a oedd ym meddiant GP.

Atgyfnerthodd yr oedi wrth gynnull adolygiad aml-asiantaeth ffurfiol yr ymagwedd adweithiol yn hytrach nag ymagwedd aml-asiantaeth ragweithiol at yr achos.

Rhaid i ymarferwyr fod yn ofalus o swyddogaeth a chwmpas ymwneud pob asiantaeth gyda'r teulu, a gwerth gwybodaeth o'r fath. Yn y digwyddiad dysgu nododd ymarferwyr o un asiantaeth oedd nad ystyrid dilysrwydd eu gwybodaeth yn bwysig ac nad oedd yn rhan o'r broses benderfynu er gwaetha'r ffaith bod eu hymwneud nhw a'u hymgysylltiad nhw â'r plentyn, y fam a gofalwyr eraill yn fwy aml ac am gyfnodau hwy na rhai GP. Mae gwaith achos cymhleth ac effeithiol yn galw am ymagwedd gydlynus, gan roi gwerth ar gyfraniad yr holl asiantaethau perthnasol.

### **Trothwyau a Gwneud Penderfyniadau**

Cododd trafodaethau yn y digwyddiad dysgu bryderon o du gweithwyr proffesiynol Addysg ac Iechyd nad oeddent yn bresennol mewn cyfarfodydd strategaeth. Roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa asiantaethau a oedd yn bresennol a'r modd y gwnaed penderfyniadau. Mynegodd gweithwyr proffesiynol Addysg yn benodol bryderon na chawsant wybod am gynnydd a gweithgaredd ar yr adeg y daeth y plentyn yn "Blentyn sy'n Derbyn Gofal". Mae'r adborth gan y grwpiau yn y digwyddiad dysgu yn awgrymu bod rhannu gwybodaeth wedi dadfeilio ar gyfnod cynnar yn y broses, codwyd pryderon lu gan yr holl asiantaethau ac mewn sawl achos ymddengys na chafwyd unrhyw adborth gan GP.

Mae AWCPP (2008) 3.5.2 t66 yn nodi:

"Dylai'r heddlu a staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd neu bobl eraill a all gynorthwyo gyda phroses gynllunio'r ymholiadau, bob amser fynychu'r cyfarfod strategol. Dylai paediatregydd fod yn bresennol pan fod archwiliad meddygol ar blentyn wedi ei wneud neu'n debygol o fod yn angenrheidiol."

Rhaid cydnabod bod casglu'r holl asiantaethau ynghyd ar gyfer cyfarfod strategaeth yn her, fodd bynnag mewn achosion cymhleth, sy'n peri pryder dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cynrychiolaeth gan yr holl asiantaethau sydd yn ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf pan nad yw presenoldeb corfforol yn bosib. Bydd hyn yn tynnu ar yr holl wybodaeth yn ymwneud â'r plentyn, gan sicrhau bod lles y plentyn yn holl bwysig, bod y plentyn yn aros yn ganolbwynt a bod mesurau diogelu priodol yn eu lle.

Digwyddodd y Gynhadledd Amddiffyn Plant cychwynnol bron i ddwy flynedd wedi i'r pryderon cyntaf am y plentyn ddod i sylw GP. Mynegodd asiantaethau beth rhwystredigaeth y cafwyd oedi sylweddol ar y penderfyniad i roi fforwm aml-asiantaeth ar waith a datblygu cynllun amddiffyn plant. Nid oedd personél allweddol yn bresennol yn y gynhadledd gychwynnol, gan gynnwys yr heddlu a'r paediatregydd, derbyniwyd ymddiheuriadau.

Yn ystod yr adolygiad hwn, holodd asiantaethau allweddol pam nad oedd y plentyn hwn

wedi ei gofrestru yn y categori cam-drin rhywiol.

Mae'r AWCPP 2008 yn diffinio cam-drin rhywiol fel a ganlyn "mae cam-drin rhywiol yn ymwneud a gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, boed y plentyn yn ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gall y gweithgareddau gynnwys cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol. Gallant gynnwys gweithredoedd heb fod cyffwrdd, megis cynnwys plant wrth wyllo, neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn moddau rhywiol amhriodol.

Yn hanesyddol bu'r pryderon am y plentyn hwn ynghylch ymddygiad rhywiol, ato'i hun a'i gyfoedion, datgeliadau'r plentyn a nifer a math y gofawyr yr ymddiriedwyd y plentyn iddynt gan y Fam. Roedd y paediatregydd arweiniol wedi ysgrifennu adroddiad i'r gynhadledd yn mynegi ei barn ar sail ymddygiad y plentyn y gallai'r plentyn fod yn profi camdriniaeth rhywiol.

Pwrpas diffinio categori'r gamdriniaeth wrth gofrestru yw nodi wrth y rhai fydd yn edrych ar y gofrestr, y prif bryderon a gyflwynwyd adeg y cofrestru ac i fwydo'r cynllun amddiffyn plant dilynol. Ystyrir fod peidio â chynnwys y categori cam-drin rhywiol yn gyfle a gollwyd i gytuno ar y peryglon, y cynllun ar gyfer monitro ac ymyriadau ac i nodi cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r peryglon.

Un o'r camau gweithredu a ddaeth i'r amlwg yn dilyn y cynllun amddiffyn plant oedd i GP wneud cais am gyfarfod cynllunio cyfreithiol. Yn ystod y broses adolygu hon cyfeiriwyd ato ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn cyn y cymerwyd y plentyn maes o law dan ofal yr Awdurdod Lleol (Gorffennaf 2013, cyfarfod Plentyn mewn angen, Tachwedd 2013, Cyfarfod strategaeth, Tachwedd 2013, goruchwyllo gwaith achos, Rhagfyr 2013, Cynhadledd Amddiffyn Plant cychwynnol, Ionawr 2014, cyfarfod grŵp craidd). Parodd hyn rwystredigaeth i asiantaethau na wnaed unrhyw gynnydd, neu na dderbyniwyd adborth parthed canlyniadau unrhyw gyfarfodydd cynllunio o'r fath yn ystod proses faith ar adeg o bryder cynyddol.

### **Diogelu Plant – Archwiliadau Meddygol**

Cafwyd yr archwiliad meddygol cyntaf (08/08/12) yn dilyn trafodaeth strategaeth a chyfarfod strategaeth. Roedd y wybodaeth a rannwyd ar y pwynt hwn yn canolbwyntio ar:

- y gofal a roddwyd i'r plentyn gan bartner/frind y fam,
- Diffyg goruchwyliaeth ar y plentyn yn hwyr gyda'r nos,
- Arddangos ymddygiad rhywiol a bygythiol,
- adroddiadau anghyson gan y fam a beio anawsterau ar iechyd meddwl y plentyn,
- y plentyn yn nodi iddi gael ei tharo gan frawd/chwaer hŷn.

Daeth yr adroddiad a gwblhawyd gan y paediatregydd i'r casgliad fod yr hanes yn un pryderus ac yn haeddu ymchwil pellach gan GP.

Cododd yr archwiliad meddygol nesaf (22/08/12) un deg naw diwrnod yn ddiweddarach bryderon pellach am gleisiau lluosog ac anafiadau anesboniadwy gyda mwyafrif y cleisiau mewn manau cymharol ddiogel, ac fe nodwyd bod patrwm cyffredinol y cleisio yn awgrymu camdriniaeth. Tynnodd yr adroddiad meddygol paediatregol sylw at bryderon yn ymwneud ag esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol a cham-drin rhywiol yn sgil ei hymddygiad rhywiol oedd yn annaturlod i blentyn o'i hoed hi.



Aeth y plentyn ar y pwynt hwn i'r system derbyn gofal yn dilyn cais y fam am lety, roedd Adran 20 y Ddeddf Plant yn weithredol.

Ysgogwyd y trydydd archwiliad meddygol (13/03/13) saith mis yn ddiweddarach gan yr ysgol a'r Gwasanaethau Cymorth ac Ymyriadau i Deuluoedd (GCYD) yn dilyn gwybodaeth a rannwyd gan y plentyn a'r staff yn sylwi ar gleisio. Mae casgliad yr archwiliad yn nodi y gallai'r cleisio fod yn ddamweiniol ond na ellid diystyru'r posibilrwydd o gamdriniaeth.

Dilynwyd pob archwiliad meddygol gan apwyntiadau pellach gyda phaediatregydd; rhannwyd gwybodaeth gyda GP a'r Meddyg Teulu.

Digwyddodd yr holl archwiliadau meddygol tra roedd y plentyn dan ofal y fam. Er nad oes cofnod gennym o bwy oedd yn bresennol yn yr archwiliad meddygol yr arfer yw i GP hebrwng y plentyn.

Cyfrannodd y ddau archwiliad meddygol cyntaf at bryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol ac a arweiniodd i'r plentyn ddod yn "Blentyn Sy'n Derbynn Gofal".

### **Arferion Effeithiol**

Yn ystod y digwyddiad dysgu ac yn ystod yr adolygiad daeth yn amlwg fod gweithwyr Addysg proffesiynol yn daer a chyson yn eu hymdrechion i godi pryderon gyda GP ac i gamau gweithredu pellach i ddiogelu'r plentyn. Rhoddodd yr ysgol becyn o gefnogaeth er mwyn galluogi'r staff i reoli ymddygiad anodd y plant a chefnogi trallod amlwg y plentyn, roeddent yn ei hystyried yn 'ddioddefwr' yn hytrach nag yn 'drafferth' rheoli ac fe gynhaliont ffocws ar anghenion a llesiant y plentyn.

Cynigiodd gweithwyr lechyd proffesiynol apwyntiadau dilynol da yn dilyn atgyfeiriadau, ymweliadau Meddyg Teulu ac archwiliadau meddygol (er enghraifft apwyntiadau paediatreg, iaith a lleferydd, asesiadau CAMHS a ADHD). Roedd y paediatregydd arweiniol yn yr achos hwn yn bendant yn ei hasesiadau o achosion posib problemau meddygol ac ymddygiad trafferthus y plentyn a bod achosion y rhain yn debygol o fod yn ffactorau cymdeithasol. Cyfathrebodd hi a'i chydweithwyr y pryderon hyn yn ysgrifenedig i GP, gan ofyn am asesiad aml-asiantaeth lawn.

Ceir tystiolaeth o arfer da yn ymwneud â'r atgyfeiriad i gael archwiliad meddygol ar gyfer y plentyn pan gaiff pryderon eu codi. Mae'r AWCPP (2008) yn argymhell bod archwiliad meddygol yn cael ei ystyried mewn achosion pan gaiff pryderon eu codi. Diben yr archwiliad meddygol yw ystyried dangosyddion posib o gam-drin, asesir cyflwr meddygol y plentyn a rhoddir triniaeth yn ôl yr angen, i sicrhau bod arwyddion o gam-drin yn cael eu nodi at ddibenion tystiolaeth ac i ddiogelu tystiolaeth ffforensig.

Er gwaethaf pryderon yr adolygydd ynghylch oedi yn y broses yn ystod cyfnod yr adolygiad, byddai'n wir i ddweud bod GP wedi archwilio ystod o achosion meddygol a seicolegol i geisio egluro ymddygiad a chyflwyniad y plentyn yn ystod y cyfnod amser hwn. Nid yw'n glir os gwnaed cais am gyngor cyfreithiol gan reolwr cyn Mis Mai 2012. Pan roddwyd caniatâd i ddechrau ar Achosion Gofal (12/05/14) gwnaed cais i'r Llys (09/07/14) ac fe benodwyd gwarcheidwad. Gosodwyd dyddiad gwrandawriad llys ar gyfer 14/07/14 ac fe aed â'r plentyn o ofal y fam yn dilyn y gwrandawriad hwn.

## **Gwella Systemau ac Arfer**

**Er mwyn hyrwyddo dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y BDPRh a'i asiantaethau aelod a'r canlyniadau gwella a ddisgwyliid:-**

Ers y cyfnod dan adolygiad gwelwyd nifer o newidiadau polisi ac arfer lleol sydd wedi cael effaith ar yr holl asiantaethau sydd yn ymwneud â diogelu plant.

- Lansio Hyb Diogelu Aml-Asiantaeth yng Nghaerdydd, Gorffennaf 2016. Golyga hyn gyd-leoli asiantaethau strategol gan ddefnyddio llwyfan cyffredin i rannu gwybodaeth, asesiadau risg ac i wneud penderfyniadau.
- Fforwm Amddiffyn Plant chwarterol dan arweiniad GP sy'n hwyluso trafodaeth broffesiynol agored aml-asiantaeth yn ymwneud â phrosesau a heriau i ddiogelu effeithiol
- Cyflwyno'r Canlyniad Cyfraith Gyhoeddus (CCG)
- Cyflwyno Cymorthfeydd Cyfreithiol ar gyfer Gwasanaethau Plant er mwyn cael cyngor cyfreithiol buan


### **Argymhellion:**

1. Dylai'r Awdurdod Lleol cyfrifol ac asiantaethau partner sicrhau bod cynllun gweithredu ganddynt yn ei le i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Adolygiad Arfer Plant hwn, gan ystyried ymchwil ac arfer gorau parthed llais y plentyn.
2. Dylai BDPRh Caerdydd a'r Fro ystyried cyflwyno templed llinell amser aml-asiantaeth safonol a chyson a fydd yn dod yn gyfrifoldeb ar bob asiantaeth i'w gwblhau wrth fynychu'r gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol.  
Dylid cynnal a diweddarau llinell amser yr asiantaeth ym mhob cyfarfod grŵp craidd gan asiantaethau unigol a'i gyflwyno fel rhan o'r adroddiad
3. I atgoffa pob asiantaeth y dylai eu hymarferwyr ddilyn yr AWCPP (2008) ac i sicrhau cynnwys yr heddlu fel partneriaid statudol a phaediatregwyr (os oes archwiliad meddygol amddiffyn plant wedi ei gwblhau) mewn trafodaethau/cyfarfodydd strategol.  
Rhaid i baediatregwyr sydd wedi ymwneud â'r plentyn a'r heddlu gael eu gwahodd a dylent fynychu pob Cynhadledd Amddiffyn Plant cychwynnol er mwyn sicrhau bod yr holl benderfyniadau yn cael eu cytuno a'u cymeradwyo.
4. BDPRh Caerdydd a'r Fro i adolygu ei ganllaw Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol presennol.  
Gallai ystyriaethau allweddol yn yr adolygiad hwn gynnwys:
  - A yw'n parhau'n addas at y diben
  - A oes digon o fanylion yn y canllaw
  - A yw'r broses yn glir ac yn gyffredinol hysbys i staff o'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys cyfrifoldebau pob asiantaeth sydd ynghlwm

- A oes angen ail-lansiad ffurfiol ar y canllaw
5. Dylai Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau BDPRh Caerdydd a'r Fro sicrhau bod ei Brotocol 'Gweithio â Rhieni Gelyniaethus sy'n Gwrthod Cydweithredu' yn cynnwys canllawiau penodol ar y canlynol:
    - a. Mae Protocol 'Gweithio â Rhieni Gelyniaethus sy'n Gwrthod Cydweithredu' hefyd wedi ei anelu at weithio gyda rhieni y mae eu hymddygiad, er nad yn amlwg elyniaethus neu ddim yn dangos diffyg cydweithrediad amlwg, yn atal diogelu eu plant yn effeithiol.  
Dylai hyn gynnwys canllaw ar ba bryd y dylai ymarferwyr yn gyfreithiol gwrdd heb fod rhieni yn bresennol i ystyried unrhyw gynnydd a chynllun amddiffyn plant.
  6. Dylai Rheolaeth Risg ar bob achos sydd ag angen cefnogaeth gan Gwasanaethau Plant am gyfnod hwy na dwy flynedd gael ei ystyried gan bob asiantaeth unigol ar gyfer archwiliad mewnol.  
Dylid rhannu'r gwersi o archwiliad asiantaethau statudol yn is-grŵp archwilio'r BDPRh er mwyn dysgu pellach.
  7. Dangosodd y digwyddiad dysgu'r angen i gyflwyno atgyfeiriad amddiffyn plant ffurfiol, yn hytrach na dibynnu ar gyfathrebu drwy ffôn neu lythyr, pan fo gwybodaeth yn cael ei gyfathrebu sy'n ymwneud â diogelu plentyn mewn achos sy'n agored.  
Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn derbyn trosolwg gan reolwyr a bydd yn cryfhau lefel y goruchwyllo ar yr achos.
  8. Rhaid i ymarferwyr fod yn ofalus o swyddogaeth a chwmpas ymwneud pob asiantaeth gyda'r teulu, a gwerth gwybodaeth o'r fath.  
Mae gwaith achos cymhleth ac effeithiol yn galw am ymagwedd gydlynus, gan roi gwerth ar gyfraniad yr holl asiantaethau perthnasol.
  9. Rhaid i Gadeirydd y gynhadledd (y Swyddog Adolygu Annibynnol) sicrhau bod y cofrestru yn adlewyrchu barn y cyfranogwyr proffesiynol a'r peryglon a drafodwyd yn y cyfarfod.  
Mae hyn yn unol â AWCPP (2008) ac yn arddangos proses benderfynu gadarn a hyder yr ymarferwyr.
  10. Mae categoreiddio anghywir wrth gofrestru yn gyfle a gollwyd i gytuno ar y peryglon, cynllunio ar gyfer monitro ac ymyriadau a nodi cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol.  
Is-grŵp archwilio BDPRh Caerdydd a'r Fro i ystyried mynd i'r afael â sicrwydd ansawdd o ran categoreiddio'r cofrestru ar gyfer achosion dros gyfnod o chwe mis 2016-17.
  11. Dylai tystiolaeth feddygol ffurfio rhan o'r wybodaeth a ddefnyddir wrth benderfynu, yn hytrach na dibynnu arno'n unig i benderfynu a ddigwyddodd camdriniaeth ai peidio.  
Dylai penderfyniadau fod wedi eu gwneud ar sail barn broffesiynol am achos(ion) posibl ymddygiad ac ymddangosiad plentyn, ac ni ddylai absenoldeb tystiolaeth feddygol yn profi heb amheuaeth mai dim ond camdriniaeth allai fod

wedi peri'r fath anafiadau gael ei ddefnyddio i ddangos na ddigwyddodd unrhyw gamdriniaeth.

12. Rhaid i reolwyr ym mhob achos ystyried y cymhlethdod sy'n datblygu mewn achosion unigol a rhoi goruchwyliaeth gyson i ymarferwyr sydd ynghlwm.
13. Rhaid i bob asiantaeth ystyried lefel briodol y staff sy'n cymryd rhan ar baneli Adolygu Arfer Plant ac sy'n darparu cronoleg o ddigwyddiadau arwyddocaol. Rhaid i bob cronoleg gael eu cwblhau neu eu goruchwyllo gan reolwyr er mwyn sicrhau cywirdeb a dadansoddiad a sicrhau presenoldeb mewn Digwyddiadau Dysgu.
14. Is-grŵp archwilio BDPRh Caerdydd a'r Fro i ystyried archwiliad o achosion lle:
  - yr amheuir cam-drin rhywiol
  - y gwneir archwiliad meddygol gan Ymarferydd Cymwys
  - bod yr archwiliad meddygol yn awgrymu bod cam-drin rhywiol yn bosib neu debygol a map
    - a) Nifer yr achosion (cyfanswm)
    - b) Nifer yr achosion yn arwain at gofrestriad
      - i. drwy gategori'r cofrestriad
15. Yn unol â chanllawiau AWCPP dylai Gwasanaethau Plant sicrhau adborth amserol i asiantaethau parthed canlyniadau unrhyw atgyfeiriadau ac argymhellion i geisio barn gyfreithiol.  
(Dylai Gwasanaethau Plant fynd i'r afael â hyn yn eu cynllun gweithredu)
16.
  - a. Bob tro y caiff y polisi datrys gwahaniaethau proffesiynol ei ddefnyddio dylai'r rheolwr tîm neu brif weithiwr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant alw cyfarfod ar fodel "arwyddion diogelwch/ asesiad risg" gyda'r holl asiantaethau partner sy'n ymwneud â'r plentyn.
  - b. Bydd hyn yn sicrhau bod y ffocws yn cael ei gadw ar y plentyn. Dylai BDPRh Caerdydd a'r Fro ystyried trefnu digwyddiad dysgu pellach i'r holl ymarferwyr a'r rheolwyr er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio, cymeradwyo cyfathrebu cyson a chliir a chadarnhau'r dysgu aml-asiantaeth o'r achos hwn.

| <b>Datganiad Adolygydd</b>   |   |  |   |
|--|---|--|---|
| <b>Adolygydd 1</b>   | Linda Hughes-Jones  | <b>Adolygydd 2</b><br>(fel bo'n briodol)   | Gail Reed   |
| <b>Datganiad annibyniaeth ar yr achos</b>  |   | <b>Datganiad annibyniaeth ar yr achos</b>  |   |
| Datganiad cymhwyso Sicrwydd Ansawdd  |   | Datganiad cymhwyso Sicrwydd Ansawdd  |   |
| <p>Rwy'n datgan fel a ganlyn, cyn fy nghysylltiad â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <p>Nad wyf wedi bod yn gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu yn uniongyrchol, na chwaith wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos;<br/> Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwyr cysylltiedig;<br/> Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, y wybodaeth, a'r profiad ac rwyf wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i gynnal yr adolygiad.<br/> Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.</p> |   | <p>Rwy'n datgan fel a ganlyn, cyn fy nghysylltiad â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <p>Nad wyf wedi bod yn gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu yn uniongyrchol, na chwaith wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos;<br/> Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferwyr cysylltiedig;<br/> Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, y wybodaeth, a'r profiad ac rwyf wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i gynnal yr adolygiad.<br/> Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.</p> |   |
| <b>Adolygydd 1</b><br>(Llofnod)  |  | <b>Adolygydd 2</b><br>(Llofnod)  |  |
| <b>Enw</b><br>(llythrennau breision)   | Linda Hughes-Jones  | <b>Enw</b> (Llythrennau breision)  | Gail Reed   |
| <b>Dyddiad</b>   | 16/01/2018  | <b>Dyddiad</b>   | 16/01/2018  |
| <b>Cadeirydd y Panel Adolygu:</b>  |   |  |   |
| <p><b>Llofnod:</b> </p> <p><b>Enw</b> (llythrennau breision): Chris Fox</p> <p><b>Dyddiad:</b> 16/01/2018</p>   |   |  |   |
| <b>Dogfennau a ychwanegwyd fel atodiad</b>   |   |  |   |
| <b>Atodiad 1:</b> Cylch Gorchwyl   |   |  |   |

## Proses Adolygiad Arfer Plant

Nodwch y canlynol yn gryno yma:

- Y broses a ddilynodd y BDPRh a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu.
- Cynhaliwyd Digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol.
- Rhoddwyd gwybod i aelodau'r teulu, gofynnwyd am eu barn ac fe'u cynrychiolwyd trwy gydol y digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt.

Hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro (BDPRhCF) Lywodraeth Cymru yn 2015 eu bod yn comisiynu adolygiad Arfer Plant yn ymwneud ag Achos Adolygu Arfer Plant 09/2014.

Roedd y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynrychioli ar y panel yn cynnwys:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Tai Cyngor Caerdydd (Cadeirydd)
- Gwasanaeth Addysg Cyngor Caerdydd
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Uned Fusnes BDPRhCF

Cynhaliwyd digwyddiad ar 20 Ionawr 2016 ac yn bresennol roedd cynrychiolwyr o'r asiantaethau canlynol:

- Gwasanaeth Addysg Cyngor Caerdydd
- Heddlu De Cymru
- Bwrdd Iechyd y Brifysgol – Canolfan Iechyd Meddygon Teulu
- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Gwasanaethau Cymorth ac Ymyriadau i Deuluoedd

Ymwelwyd â gwrthrych yr Adolygiad i gael ei barn cyn y digwyddiad dysgu ac i arwain a chefnogi canlyniadau'r adolygiad.

Mae'r Adolygwyr a'r Cadeirydd wedi ymrwmo i rannu'r dysgu o'r adroddiad gyda'r fam cyn cyhoeddi.

**Teulu wedi gwrthod ymwneud â'r adolygiad**

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

**Dyddiad derbyn yr wybodaeth:**

**Dyddiad gyrru llythyr cydnabod i gadeirydd y BDPRh:**

**Dyddiad dosbarthu i'r byrddau archwilio/Arweinwyr Polisi perthnasol:**

| Asiantaethau                                    | Ie | Na | Rheswm |
|---|----|----|--------|
| <b>AGGCC</b>                                    |    |    |        |
| <b>Estyn</b>                                    |    |    |        |
| <b>HIW</b>                                      |    |    |        |
| <b>Arolygiaeth Cwnstablïaeth ei Mawrhydi</b>    |    |    |        |
| <b>Gwasanaeth Prawf Arolygiaeth ei Mawrhydi</b> |    |    |        |

# **Adolygiad Ymarfer Plant Bwrdd Diogelu Plant Lleol Caerdydd a'r Fro 09/2014**

## **Cylch Gorchwyl**

Derbyniodd is-grŵp Adolygu Arfer Plant Caerdydd a'r Fro atgyfeiriad 09/2014 Adolygu Arfer Plant ar 6 Ionawr 2015 pan gytunwyd bod yr achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Arfer Plant estynedig oherwydd bod y plentyn naill ai yn hysbys i'r gwasanaethau neu ar y gofrestr Amddiffyn Plant dan gategori esgeulustod ar adeg y digwyddiad a arweiniodd at yr atgyfeirio. Ystyriodd yr Is-Grŵp Adolygu Arfer Plant yr atgyfeiriad a'r tyb oedd ei bod yn bosibl yr amharwyd ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol ac yn barhaol.

Cytunodd aelodau'r Is-Grŵp y dylai amserlen yr adolygiad ganolbwyntio ar y cyfnod 12 mis cyn y cyfnod Derbyn Gofal diweddaraf. Felly cyfnod amser yr adolygiad fydd:

**14 Gorffennaf 2013 – 14 Gorffennaf 2014**

### **Dyma'r asiantaethau sy'n rhan o'r adolygiad:**

Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwasanaethau Plant: Awdurdod Lleol Caerdydd

Gwasanaethau Addysg: Awdurdod Lleol Caerdydd

Heddlu De Cymru

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

### **Cadeirydd yr adolygiad fydd:**

Chris Fox  
Cyngor Dinas a Sir Caerdydd  
Gwasanaethau Tai

### **Yr Adolygwyr**

Gail Reed  
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Linda Hughes-Jones  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro